Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

26 Mehefin 2017

Ymchwiliad un-dydd i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi ein bod wedi cytuno i gynnal sesiwn un-dydd yn edrych ar ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru ar 13 Gorffennaf.

Rydym yn gobeithio cymryd tystiolaeth lafar gan lywodraeth leol, cymdeithasau tai, gwasanaethau tân ac achub a phreswylwyr. Oherwydd bod hyn ar fyr rybudd, nid ydym yn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig ar hyn o bryd. Byddwn yn trafod y meysydd canlynol:

– Pa ofynion/mesurau diogelwch tân sydd ar waith mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru ar hyn o bryd?

– A oes unrhyw fylchau neu wendidau amlwg yn y system bresennol o reoleiddio diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru?

– A yw'r canllawiau i drigolion tyrau o fflatiau yng Nghymru, mewn achos o dân, yn briodol?

– Sut y caiff trigolion yng Nghymru wybod am ddatblygiadau diweddar, a sicrwydd, ynghylch mesurau diogelwch rhag tân yn eu tyrau? Yn fwy cyffredinol, i ba raddau y mae clust i wrando ar farn trigolion am ddiogelwch tân ac i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Rhowch wybod i mi os ydych chi neu unrhyw aelod o'ch Pwyllgor eisiau rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.